# Gwaelod y Garth

Cylchlythyr Wythnosol / Weekly Newsletter

**12.12.25**




## Sioeau Nadolig! Christmas Shows!

Waw! Am Sioe Nadolig! Llongyfarchiadau mawr i bob un o'n plant ar eu llwyddiant wrth gyflwyno tri pherfformiad gwefreiddiol o Sioe Nadolig 2025. Wedi wythnosau o baratoi, roedd y cyffro a'r egni yn fawr a'r mwynhau a'r boddhad yn gwbl amlwg ar wynebau pob plentyn. Mae hi'n destun balchder mawr i ni bod pob plentyn yn cael cyfle i ragori wrth berfformio yn flynyddol. Does dim yn codi gwen mwy na gweld ein plant yn magu gwydnwch wrth berfformio mor hyderus. Diolch i bawb a ddaeth i gefnogi – mor hyfryd gweld Capel Bethlehem dan ei sang ar gyfer y tri achlysur. Fel Pennaeth, mae fy niolch yn ddwfn i bob aelod staff am y paratoi trylwyr, y safonau uchel ac am lunio sioe mor egnïol ac mor safonol. Llongyfarchiadau mawr i bawb!

Er ein bod yn agosáu at ddiwedd tymor, does dim gorffwys yn Ysgol Gwaelod y Garth wrth i ni drefnu profiadau Nadolig ystyrlon i'n plant. Bu dosbarthiadau Derbyn ac 1C ar daith i weld Sioe Nadolig Cyw tra bu'r Feithrin a dosbarth 2E hefyd yn ymweld â'r theatr. **Pawb yn joio mas draw!** Fel y gwyddoch, mae nifer o brofiadau hyfryd wedi'u cynllunio ar gyfer wythnos nesaf hefyd. Cofiwch taw ar Ddydd Iau 18fed y byddwn yn cael ein Cinio Nadolig. Mae croeso i bawb wisgo siwmperi Nadolig os hoffent. Cofiwch fod presenoldeb eich plant yn yr ysgol yn bwysig hyd at ddiwedd tymor er mwyn manteisio ar yr holl brofiadau ychwanegol sydd wedi'u trefnu. Gydag wythnos i fynd, mae hwyl yr Ŵyl yn sicr yn parhau!

Yn dilyn eu gwaith i goffau Trychineb Y Llan, mae disgyblion Blwyddyn 4 bellach wedi creu podlediad i goffau. Cliciwch yma i wrando: Podlediad Gair o'r Garth

♥ ♥ ♥ ♥ ♥ ♥ ♥ ♥

Wow! What a Christmas Show! Congratulations to all our children on their success in three thrilling performances of our **2025 Christmas Show**. Following weeks of preparation, the excitement and energy was high and the enjoyment evident on the faces of all children. It is a matter of pride for us that every child has the opportunity to excel in their performances each year. Nothing raises a smile more than seeing our children build resilience while performing so confidently. Diolch to all who came to support – it speaks volumes that Bethlehem Chapel was full to the brim on all three occasions. As Headteacher, I wish to express by heartfelt gratitude to every member of staff for the thorough preparation, the high standards and for putting together such an energetic show of such standard. Congratulations to everyone!

Despite nearing the end of term, there is no rest at Ysgol Gwaelod y Garth as we plan mor meaningful Christmas experiences for our children. Dosbarth Derbyn and 1C had a great time yesterday at **Sioe Nadolig Cyw** while the Nursery and class 2E also visited the theatre to see brilliant performances. **Great fun!** As you know, there are also a number of wonderful experiences planned for next week. Don't forget that we will be having our Christmas Dinner that on Thursday 18th. Please feel free to wear Christmas jumpers if you wish. Please remember that your children's attendance at school is important until the very end of term in order to take advantage of all the extra experiences that have been arranged. With a week to go, the festive fun certainly continues! ♥ ♥ ♥ ♥

We are proud of our Year 4 pupils and their work on the Llan Memorial. They have now recorded a Podcase to commemorate the event Gair o'r Garth Podcast

## Dyddiadau Pwysig *Important Dates*

**Llun / Monday 15.12.25**
Meithrin Prynhawn - Sherman
*Afternoon Nursery - Sherman*

**Mawrth / Tues 16.12.25**
M-B2 Sioe Coblyn (yn yr Ysgol)
M-Y2 Show (at School)

**Mercher / Weds 17.12.25**
Meithrin @ 10am & 2pm
Gweithdai Addurniadau
*Decoration Workshops*

**Mercher / Weds 17.12.25**
2E – Theatr Sherman
*2E – Sherman Theatre*

**Mercher / Weds 17.12.25**
3C–6C Panto (yn yr Ysgol)
3C-6C Panto (at School)

**Mercher / Weds 17.12.25 @ 3pm**
Cyngerdd Fiolin Blwyddyn 2
Year 2 Violin Concert

**Iau / Thursday 18.12.25**
Cinio Nadolig a Siwmperi Nadolig
*Christmas Dinner and Christmas Jumpers*

**Gwener / Friday 19.12.25**
Diwedd Tymor
*End of Term*

**Llun / Monday 05.01.26**
Diwrnod HMS
*Inset Day*




Dosbarth Derbyn a Dosbarth 1C wrth eu boddau yn

Sioe Nadolig Cyw



Meithrin Bore yn Theatr y Sherman / Morning Nursery in the Sherman Theatre






2E yn mwynhau Panto yn Theatr y Sherman
2E enjoying the Panto in the Sherman Theatre



## Bws Beics

Bu dipyn o hwyl Nadoligaidd ar y Bws Beics heddiw! Brawf iawn gweld plant newydd yn ymuno.

Diolch o galon i'r rhieni sydd yn gwirfoddoli i gefnogi a goruchwylio heddiw a phob amser - hebddoch chi, byddai'r bws beics ddim yn bosib!

Croeso i aelodau newydd bob amser!

## Bike Bus

Bu dipyn o hwyl Nadoligaidd ar y Bws Beics heddiw! Brawf iawn gweld plant newydd yn ymuno.

Diolch o galon i'r rhieni sydd yn gwirfoddoli i gefnogi a goruchwylio heddiw a phob amser - hebddoch chi, byddai'r bws beics ddim yn bosib!

*New members always welcome!*







# <u>CRhA / *PTA*</u>

Diolch i'r PTA anhygoel am drefnu ein Ffair Nadolig. Gwnaed elw o £2850.25! Diolch i bawb am gefnogi ❤

Thank you to our amazing PTA for organising our Christmas Fair. The profit was an outstanding £2850.25! Diolch to all for your support. ❤






## Noson Bingo Night
## Dydd Gwener / Friday
## 06.02.25

**Amddiffyn a Diogelu Plant**

Mae Amddiffyn a Diogelu Plant yn fater pwysig iawn. Mae dyletswydd ar bawb yn y gymuned i ddiogelu pob plentyn. Mae polisi diogelu'r ysgol ar wefan yr ysgol: [Polisi Diogelu ac Plant]

Pe bai gennych bryder am ddiogelwch plentyn, dylech rhannu'r pryder gyda Swyddogion Diogelu'r ysgol <u>ar unwaith</u>. **Swyddogion Diogelu** yr ysgol yw Mrs Helen Sharkey, Mrs Wendy Owen a Mrs Helen Davies. Gallwch ffonio'r ysgol ar unrhyw adeg i drafod diogelu.

**Child Protection and Safeguarding**

Child Protection and Safeguarding is an important matter. All members of the community have a duty to protect all children. The school's safeguarding policy can be found on the school's website: [Safeguarding and Child Protection]

If you have a concern about a child's safety, you should share the concern with the school's Safeguarding Officers <u>immediately</u>. The school's Safeguarding Officers are Mrs Helen Sharkey, Mrs Wendy Owen and Mrs Helen Davies. You can call the school at any time to discuss safeguarding.